

CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL CYFARFOD / MEETING 2/6/2014

PRESENNOL: Mrs S Jones (Cadeirydd), Mrs E Jones, Ms M Williams, Mrs H Williams, Ms M E Evans, Mrs S. Roberts, Mr G Williams, Mr B Veevers, Cyngorydd R G Parry.

YMDDIHEURIADAU: Mrs C Lloyd, y Cyngorydd Sîr Nicola Roberts, y Cyngorydd Sîr Dylan Rees.

COFNODION: Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12/5/2014 yn gofnod cywir.

MATERION YN CODI:

1. Gweithgareddau Cymru'n Cofio. Popeth ar gyfer yr wlynos nawr wedi'u cadarnhau heblaw am amseru'r gwasanaeth. Gan nad oedd Mrs C Lloyd yn bresennol, penderfynwyd trafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

2. Prosiect "Tidy Towns". Dim mwy o symud ymlaen wedi digwydd hyd yma.

3. Prosiect Cluc y Pentref. Dau amcangyfrif am wneud a gosod plinth wedi dod i law. Derbyniodd y Cadeirydd alwad ffôn oddi wrth aelod o Gyngor Cymuned Rhosneigr yn ei chynggori for cluc Rhosneigr wedi ei ddigido. Y Clerc wedi cysylltu â Smith of Derby i ofyn am amcangyfrif o'r gost i ddigido cluc y pentref. Mrs E Jones a'r Cyngorydd R G Parry (os fydd ar gael) i roi cyflwyniad ar brosiect y cluc i ddisgyblion Ysgol y Ffridd. Dywedodd Mrs E Jones fod y prifathro wedi ei chynggori fod Môn FM wedi dangos diddordeb i gyfweld y plant yn dilyn y cyflwyniad ac i ddarlledu'r cyfweliad. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod cais am grant o £1000 wedi'i anfon at Fwrdd Elusen William Bold, a chais am grant o

PRESENT: Mrs S Jones (Chairman) Mrs E Jones, Ms M Williams, Mrs H Williams, Ms M E Evans, Mrs S. Roberts, Mr G Williams, Mr B Veevers, Councillor R G Parry.

APOLOGIES: Mrs C Lloyd, County Councillor Nicola Roberts, County Councillor Dylan Rees.

MINUTES: The minutes of the previous meeting held on 12/5/2014 were accepted as true minutes.

MATTERS ARISING:

1. "Wales Remembers" activities. All arrangements confirmed apart from the timing of the service. As Mrs C Lloyd was not present, it was decided to discuss the matter further in the next meeting.

2. "Tidy Towns" project. No further progress made to date.

3. Village Clock Project. Two further estimates for constructing and installing a plinth were received. Y Chairman had received a phone call from a member of Rhosneigr Community Council advising her that the Rhosneigr village clock had been digitized. The Clerk had contacted Smiths of Derby request an estimate of the cost to digitalize the village clock. Mrs E Jones and Councillor R G Parry (if available) to give a presentation on the project to the pupils at Ysgol y Ffridd. Mrs Jones stated that the headmaster had informed her that Môn FM had shown an interest to interview the pupils following the presentation, and to broadcast the interview. The Chairman confirmed that an application for a grant of £1000 had been sent to the William Bold Charity,

£10,000 wedi'i anfon at CADW.

4. Llwybrau Cyhoeddus. Trefnwyd y daith gerdded flynyddol o gwmpas llwybrau cyhoeddus yr ardal ar gyfer y 14 Mehefin am 10am.

5. Cynrychiolydd ar Fwrdd Elusen William Bold. Y Cynghorydd R G Parry wedi cael cadarnhad nad oedd rhaid i'r cynrychiolydd newydd ddal unrhyw swydd ar y Bwrdd. Felly penderfynwyd enwebu Helen Williams fel cynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar Fwrdd yr Elusen. Y Clerc i gadarnhau hynny i ysgrifennydd y Bwrdd.

6. Cwyn am y parcio ger Pen Parc. |Ymateb I law oddi wrth Ysgrifennydd Personol y Comisiynydd, ond roedd yn amlwg o weld cynnwys ei hymateb, ei bod hi wedi cam ddehongli'n llwyr y llythyr a anfonwyd at y Comisiynydd. Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu at sylw personol y Comisiynydd yn gofyn iddo am ymateb rhesymol i'n llythyr.

GOHEBIAETH:

1. Cyngor Sir Ynys Môn.

(a). Holiadur ar ddarpariaethau mynwentydd Ynys Môn a Holiadur Arolwg Mannau Chwarae a Pharciau ar Ynys Môn. Holiaduron i'w llenwi gan y Clerc.

(b). Fforwm Blynnyddol Partneriaeth Cyrchfan Ynys Môn 6/4/2014. Derbyn er gwybodaeth.

(c) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref.

Rhybudd derbyn cais llawn am addasu ag ehangu ym Mhant y Llawr. Derbyn er gwybodaeth.

2. Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid

Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

Adroddiad oddi wrth Dilys Shaw. Derbyn er gwybodaeth.

and an application for a grant of £10,000 had been sent to CADW.

4. Public Footpaths. The annual walk around the local public footpaths had been arranged for the 14 June at 10am.

5. Representative on the Board of the William Bold Charity. Councillor R G Parry had received confirmation that it was not necessary for the new representative to hold any office on the Board. Therefore, it was decided to nominate Mrs Helen Williams as the Community Council representative on the Board of the Charity. The Clerk to confirm the nomination to the Board's Secretary.

6. Complaint re parking by Pen Parc. Reply received from the Commissioner's Personal Secretary, and it was obvious from the content of the letter that she had completely misinterpreted the letter sent to the Commissioner. It was decided that the Clerk send a letter for the personal attention of the Commisioner requesting him for a rational responce to our letter.

CORRESPONDENCE:

1. Isle of Anglesey County Council.

(a) Questionnaire regarding the provision of Cemeteries on Anglesey and Questionnaire re Survey of Play Areas and Parks on Anglesey. Both questionnaires to be completed by the Clerk.

(b) Destination Anglesey Partnership's Annual Forum 6/6/14 .For information.

(c) Town and Country Planning Act.

Notice of receipt of full application for alterations and extensions ar Pant y Llawr. For information.

2. Betsi Cadwaladr Board

Stakeholder Group. Report from Dilys Shaw. For information.

- 3. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.** Arolwg o Gydnabyddiaeth Ariannol 2013/14. Derbyn er gwybodaeth.
- 4. Llywodraeth Cymru. Papur Gwyn Iechyd Cyhoeddus.** Digwyddiad ymgysylltu i'w gynnal 4/6/2014 yn Galeri Caernarfon. Derbyn er gwybodaeth.
- 5. Un Llais Cymru.** Taflen ymgynghori newydd yn disgrifio'r gwasanaethau y gallant eu cynnig. Derbyn er gwybodaeth.
- 6. Llywodraeth Cymru.** Dogfen Ymgynghori ar Fynediad i Wybodaeth Cynghorau Tref a Chymuned. Derbyn er gwybodaeth.

ARIANNOL:

- 1. Zurich Municipal.** Yswiriant y Cyngor 2014/15 yn daladwy. Y Clerk wedi gallu cael gostyngiad yn y gost i **£497.80**. Derbyniwyd hyn yn ddiolchgar a phenderfynwyd fod y Clerk dalu'r yswiriant.
- 2. I G Jones a'i Gwmni.** Anfoneb o **£84.00** am waith PAYE 2013/14. Penderfynwyd gofyn i'r Clerk ei dalu.
- 3. Cyflog y Clerk a'r PAYE i'w talu.**

UNRHYW FATER ARALL:

- 1. Draen dwr wrth Celanellt, a phroblem yn Afon Felin.** Cwynion i law am arogl atgas yn dod o'r ddau safle uchod. Penderfynwyd gofyn i'r Clerk gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru i ofyn iddynt ymchwilio i'r cwynion.
- 2. Gray Skips.** 3 neu 4 o loriau ar gyfartaledd yn dod drwy'r pentref bob diwrnod. Gofynnwyd i Mr Brian Veevers gadw golwg ar hyn, ac adrodd yn ôl i'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf.
- 3. Pwyllgor y Carnifal.** Llongyfarchwyd y pwyllgor ar ennill 6 tlws yng ngharnifal Porthaethwy.

CYFARFOD NESAF. Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 7 Gorffennaf

3. Independent Remuneration Panel for Wales. Review on Monetary Remuneration 2013/14. For information.

4. Welsh Government. Public Health White Paper. Engagement event to be held 4/6/2014 at Galeri, Caernarfon. For information.

5. One Voice Wales. New consultancy leaflet which describes the services they can offer. For information.

6. Welsh Government. Consultation Document on Access to Information on Community and Town Councils. For information.

FINANCIAL:

- 1. Zurich Municipal.** Council's insurance 2014/15 due for payment. The Clerk had been able to negotiate a reduction in cost to **£497.80**. The Clerk was thanked, and it was decided that the Clerk pay the insurance.
- 2. I G Jones & Co.** Invoice **£84.00** for PAYE work done 2013/14. It was decided that the Clerk pay the invoice.
- 3. Clerk's salary** and PAYE to be paid.

ANY OTHER MATTER:

- 1. Water drain opposite Celanellt and problem in Afon Felin.** Complaints received concerning obnoxious smells from both sites. It was decided that the Clerk contact Natural Resources Wales to request them to look into both complaints.
- 2. Gray Skips.** On average 3 or 4 lorries seen driving through the village every day. Mr Brian Veevers was requested to keep an eye on the situation, and to report back to the Council at the next meeting.
- 3. Carnival Committee.** The committee was congratulated on winning 6 trophies at the Menai Bridge Carnival.

NEXT MEETING. The next meeting will be held on Monday 7 July 2014 at

2014 am 7pm.

7pm.